CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Ebrill 3ydd, 2019

Annwyl Aelod,

Gwysir chi fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Ebrill 10fed, 2019** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Mawrth 13eg, 2019
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   i) 5a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 5c) 13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-Fi Cymunedol Cyhoeddus
   iii) 5ch) 13. Gohebiaeth: e) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Wythnos Recriwtio
7. **Mynwent** –
8. **Caeau Chwarae –** Offer Newydd Cae Chwarae Aber-soch – Cymynrodd; Trac Beiciau Cae Chwarae Mynytho; Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch; Cais Sefydliad y Merched i Blannu Coed; Siôn Bryn Roberts – Cais gan y Gwasanaeth Ieuenctid
9. **Cyfrifon –** Archwiliad Mewnol ac Allanol 2018 – 2019**;** Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn
10. **Materion Cynllunio** – Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth; Cwrs Cymorth Cynllunio Cymru; Apêl Cwt Glan Môr Rhif 2 Borth Fawr
11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Biniau Baw Cŵn; Enw Stad Cornwall, Mynytho; Golau Stryd; Biniau Halen
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau; Llwybr y Shanty; Llwybr y Morwyr (Rhifau 42 a 51); Torri Coed ar Lwybr Ceffyl ger Penfôr, Bwlchtocyn
13. **Gohebiaeth**:
    a) ***Un Llais Cymru (ULIC)*** – Digwyddiad ar y Cyd â'r SLCC

b) Heddlu Gogledd Cymru a Safonau Masnach Gwynedd a Môn – Codi Ymwybyddiaeth o Dwyll a Sgamiau yn ein Hardal
c) Cyng. Mike Parry - Mater Brys - Israddio Bangor! Cau Adran Argyfwng Uned Fasgwlar Ysbyty Gwynedd
ch) Comisiynydd y Gymraeg – Neges oddi wrth Aled Roberts
d) Mike Jones, Ysgol y Gyfraith Prifysgol Lerpwl – Cais am Gyfraniad i Gyfieithu Llyfryn am Chwiorydd Isambard Owen, Glynmelin, Aber-soch
dd) Cyflenwad Trydan Ciosg Llanengan
e) Poster Diffribilwyr Aber-soch

14. Dyfarniadau Cynllunio
15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
16. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Mai 8fed, 2019 – **Cyfarfod Blynyddol a Misol**

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS EBRILL

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C19/0089/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Trosi llofft gan adeiladu dwy ffenestr gromen i'r prif edrychiadau – Lleifior, 12 Maes Awel, Aber-soch **– Caniatawyd eisoes. Cefnogwyd ar sail penderfyniad aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio**
2	C19/0232/39/LL	Ffenestr gromen gefn – **Garreg Wen, Llanengan**
3	C19/0252/39/MG	Materion a gadwyd yn ôl i adeiladu tŷ – **Tir ger Berthwen, Bwlchtocyn**
4	C19/0256/39/LL	Dymchwel modurdy ac adeiladu modurdy newydd ag ystafell chwarae uwchben – **Penmôr, Lôn Golff, Aber-soch**
5	C19/0262/39/CC	Torri dwy goeden dan Orchymyn Gwarchod Coed - **Gorsaf Bad Achub RNLI, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
6	C19/0275/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Cwt glan môr (dyluniad diwygiedig i Ganiatâd C18/1049/39/LL) – **Cwt Glan Môr Traeth Marchros, Bwlchtocyn**
7	C19/0284/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – **Tlysfan, Bwlchtocyn**
8	C19/0303/39/LL	Diwygio Amodau 2 (unol â'r cynlluniau) ac 8 (cynllun tirlunio) ar ganiatâd cynllun C13/1255/39/LL er mwyn rheoleiddio gwaith nad yw'n unol â'r cynlluniau a ganiatawyd – **Pant Gwyn Caravan Park, Sarn Bach**
9	C19/0333/39/LL	Dymchwel estyniad, modurdy a siale presennol a chodi estyniad deulawr cefn a modurdy ar wahân – **Heulwen, Llangian**